WG35.5.116

"COFFADWRIAETH Y CYFIAWN SYDD FENDIGEDIG."

# ODLAU HIRAETH

AR OL Y DIWEDDAR

## John Griffith Poyer Lewis, Ysw., Y.H.,

HENLLAN, NARBERTH,

SWYDD BENFRO,

**Yr hwn a fu Farw Chwefror 11, 1886,**

YN 68 MLWYDD OED.

---

CYFLWYNEDIG I

## ARGLWYDD ESGOB LLANDAF

GAN Y

PARCH. JOHN MORGAN (MYVENYDD), ABERCANNAID.

---

I.

TYWYLLWCH a phrudd-der a daflant eu mentyll
  Hir-laesion dros wyneb bro amser, i gyd,
Gan droi, mewn amrantiad, ei oleu yn dywyll,
  A sydyn ddifwyno ei geinion ynghŷd ;
Mae drain profedigaeth wrth fôn y rhosynau
  Prydferthaf a welir,—mae bedd ym mhob gardd,—
Mae darfodedigaeth,—mae nychdod ac angau,
  Yn lladd y têr flodau amryliw a hardd.

X205311252

II.

Yr Angau,—arch—elyn diweddaf dynoliaeth,
Ni pharcha rinweddau, na bonedd, na bri;
Nid ystyr deimladau'r galarwyr mewn hiraeth,
Ni wrendy ar weddi'r wylofus ei gri :
Fel swyddog didostur cyflawna ei neges,
A dwg ei ysglyfaeth i ffwrdd i'r ail fyd ;
Yr un ym mhob cyfnod a gwlad ydyw hanes
Gweithredoedd ei ddwylaw diorphwys o hyd.

III.

Ein Lewis boblogaidd,—ein gwron gwladgarol,
Cefnogydd ein llwyddiant ac Ynad y gwir,—
Y gŵr a ymdrechodd mor ddewr ac egnïol
Ym mhlaid egwyddorion y moesol a'r pur—
Gwnaed yntau, o'r diwedd, yn nôd i ergydion
Y gelyn diweddaf, pan nad oedd ei wlad,
Na'i geraint, yn tybied fod pruddaidd gysgodion
Marwolaeth yn nesu at fywyd mor fâd.

IV.

Pan ar ei ymweliad i weini ymgeledd—
I leddfu dyoddefaint y gwelw a'r tlawd,—
I wasgar haelioni ei gariad yn annedd
Y truan gofidus a chyfyng ei ffawd,—
Cyfarfu âg angau, a'i galon dosturiol,—
A gurai mor dyner yn achos y gwan,—
A safodd, dan effaith y ddyrnod angeuol,—
Ffrŵd bywyd a rewodd i gyd yn y fan !

V.

O! farw ardderchog yw marw yn *aberth,*
Wrth leddfu trueni'r ddynoliaeth a'i chûr ;
Mae hyn yn gwneud hagrwch marwolaeth yn brydferth—
Yn gwisgo y beddrod yn oleu a chlir !
A ! nid yw gweithredoedd *y cyfiawn* yn marw,
*Arhosant*, fel blodau persawrus eu rhyw,
Yn ngardd y ddynoliaeth, a chadwant ei enw
Mewn parch ac anwyldeb yn nghyfrif y byw.

W
13047.

VI.

Marwolaeth fel yna a brofodd ein gwrthddrych,—
  Marwolaeth ddisyfyd, yn nghanol ei waith ;
Ymsuddodd fel hüan y dydd, yn yr entrych,
  Gan adael tywyllwch teimladwy a maith :
Ei fywyd oedd drwyddo mor llawn o rinweddau,
  Ei wrês oedd mor danbaid, a'i oleu mor glir,
Fel pan yr ymsuddodd yn nglŷn dychryniadau,
  Tywyllwch a phrudd-der orchuddient y tir.

VII.

Bu farw yr *Ynad*, nad oedd ond *cyfiawnder*,
  Fantolai ei reswm, ei ddedfryd, a'i farn ;
Un na fedrai ŵyro, a gwenu ar ffalster,
  A gwneuthur aur-ddeddfau'r gwirionedd yn sarn !
Têr lusern cydwybod lewyrchai i'w gamrau,
  Gweinyddai yn ngolwg gofynion ail fyd ;
A hyn roddai wrês yn ei ddysglaer rinweddau,
  Gynnyddai yn fwyfwy i'w ddiwedd o hyd.

VIII.

Bu farw'r *cyfoethog*, a fedrai gyfranu,
  A gwasgar ei ddoniau ym mwthyn y tlawd,
Bu farw, a'i law yn agored yn rhoddi
  Elusen i'r truan, adfydus ei ffawd.
Bu farw y *meistr* ydoedd anwyl i'w ddeiliaid,—
  Dosturiai yn adeg cyfyngder, fel tad,—
Ddymunai eu llwyddiant o eigion ei enaid,
  Chwennychai gysuron a bendith ei wlad.

IX.

Bu farw y *dyn,* a lawn deimlai bwysigrwydd
  Bodolaeth,—a gredai fod bywyd, i gyd,
Yn euraidd dalentau o roddiad ei Arglwydd,—
  Yn haen o feteloedd amryliw a drud :
Caed ffydd a gweithredoedd yn harddu 'i gymmeriad,
  Caed proffes a buchedd o hyd yn gyttûn ;
Ei einioes, i'w diwedd, fu'n swynol gyfuniad
  O geinion amryfal y *bonedd* a'r *dyn.*

X.

Nid geiriau diystyr, nid gwên y rhagrithiol,
  Nid ystum y gwammal, nid agwedd y ffol,—
Nodweddent gymmeriad a theithi meddyliol
  Yr hwn y galerir mor ddwys ar ei ol :
Rhy brin y darllenid yn nhremiad ei wyneb
  Fod ffynnon o gariad mor llawn dan ei fron ;
Ond mynych canfyddid, mewn swyn a rhwyddineb,
  Y ffrydiau tryloewaf yn llifo o hon.

XI.

Bu farw y *Cristion* egnïol a ffyddlon—
  Y milwr diorphwys yn Rhyfel y Groes ;
Yr enwog Eglwyswr llafurus a chysson,
  A chyfaill twymngalon pob rhinwedd a moes,—
Un deithiau drwy fywyd, a'i drém i'r dyfodol,
  A'i lygad yn graff ar Ddydd manwl y Farn,
Gan gofio'r adroddid holl chwedl yr amserol
  Yn ngwyddfod y frawdle ddyfodol, bob darn.

XII.

Gwâg bellach yw HENLLAN o'i LEWIS garedig,
  Addurnodd y fangre â'i ddoniau mor hir ;
Symmudwyd ei yspryd at saint perffeithiedig
  Ac engyl claerwynion, i hinsawdd fwy clir.
Tywallted y nef ei chawodydd bendithion
  Yn hael ar ei geraint galarus, i gyd,
Yr adgof o'i fuchedd dryloëw a chysson
  Yn ingoedd eu galar ddyddano eu bryd.

*Ebrill 6ed, 1886.*

Farrant a Frost, Argraffwyr, Merthyr